Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.


This document is available in Welsh as well as English.

Hydref – Rhagfyr 2025–2026

**Diweddariad chwarterol ymweliadau annibynnol â dalfeydd:**

**Hydref – Rhagfyr 2025 – Data o'r dalfeydd**


| Cyfanswm yr oedolion a gadwyd yn y ddalfa | Cyfanswm yr unigolion ifanc a gadwyd yn y ddalfa | Cyfanswm yr unigolion a gadwyd yn y ddalfa | Cyfanswm y gwrywod | Cyfanswm y benywod | Cyfanswm yr unigolion rhyngryw | Cyfanswm yn anhysbys |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1,763 | 65 | 1,828 | 1,447 | 373 | 0 | 8 |



Hydref – Rhagfyr 2025–2026

## Hydref – Rhagfyr 2025 – Data o ymweliadau annibynnol â dalfeydd

| Nifer yr ymweliadau annibynnol â dalfeydd | Cyfanswm yr unigolion a gadwyd yn y ddalfa ar adeg ymweliadau annibynnol â'r ddalfa | Cyfanswm yr oedolion a gadwyd yn y ddalfa | Cyfanswm yr unigolion ifanc a gadwyd yn y ddalfa | Cyfanswm yr unigolion a gadwyd yn y ddalfa ddim ar gael | Nifer yr unigolion a gadwyd yn y ddalfa yr arsylwyd arnynt | Cyfanswm yr unigolion a gadwyd yn y ddalfa yr ymwelwyd â nhw | Cyfanswm y gwrywod a gadwyd yn y ddalfa | Cyfanswm y benywod a gadwyd yn y ddalfa |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 52 | 147 | 137 | 10 | 32 | 47 | 68 | 117 | 30 |





**Ymweliadau annibynnol gweithredol â dalfeydd: 15**


- Sir Benfro: 4
- Powys: 4
- Ceredigion: 3
- Sir Gaerfyrddin: 4


*Mae un gwirfoddolwr wedi ymadael a phedwar gwirfoddolwr wedi cymryd seibiant dros dro o'r cynllun.*


Hydref – Rhagfyr 2025–2026

**Amseroedd ymweliadau:**



Hydref – Rhagfyr 2025–2026

**Yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun:**

**Atgyweiriadau**

- Roedd y mater mwyaf amlwg a godwyd gan ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn ystod y chwarter diwethaf yn gysylltiedig ag atgyweiriadau. Roedd y mater mwyaf cyson yn ymwneud â chell yn parhau yn anweithredol trwy gydol y chwarter o ran yr amser yr oedd ei angen i ailosod rhan o gaead awyru.
- Mae problem barhaus arall wedi codi mewn dalfa benodol o ran larymau affráe diffygiol a chlwyd y maes cerbydau y mae angen ei newid. Roedd hefyd adroddiad am sgrin cyfrifiadur ddiffygiol a oedd wedi parhau drwy gydol mis Rhagfyr gan effeithio ar bob rhingyll dalfa yno.
- Awgrymodd yr ymwelwyr annibynnol â dalfeydd osod system deledu cylch cyfyng yn ardal y gegin mewn dalfa, yn ogystal â ger loceri eiddo'r bobl a gedwir yn y ddalfa er mwyn cynorthwyo staff pe bai cwynion yn cael eu codi. Er bod y system deledu cylch cyfyng ar gyfer y loceri wedi'i chytuno ac wedi'i hanfon i dendr ar hyn o bryd, mae'r gegin yn dod o fewn y gofynion dalfa mwy diogel; felly ni all yr heddlu gyfiawnhau cyllid ychwanegol ar gyfer yr awgrym hwn.
- Adroddwyd gan ymwelwyr annibynnol â dalfeydd bod nifer o gelloedd angen cael eu hatgyweirio ar frys, ac ymddengys y cydymffurfiwyd â hyn ar y cyfan dros y chwarter diwethaf.
- Nodwyd bod angen newid rhywfaint o'r dodrefn swyddfa oherwydd eu hoedran a'r diffyg o ran cynnal y cefn. Codwyd hyn eto ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

**Cau gorsafoedd a materion staffio**

- Oherwydd cau gorsaf benodol a thywydd gwael ym mis Rhagfyr, bu'n rhaid rhoi'r gorau i un ymweliad annibynnol â'r ddalfa yn y chwarter diwethaf hwn.
- Ni chofnodwyd unrhyw faterion eraill yn nodi anhawster sy'n gysylltiedig â chau gorsafoedd yn y chwarter diwethaf hwn.

- Ar 13 Tachwedd 2025, cyfarfu'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Andrew Edwards, ynghyd â'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, â'r ymwelwyr annibynnol â dalfeydd i drafod pryderon a godwyd o'r chwarter blaenorol yn ymwneud â materion staffio. Y diben a ddymunwyd o ran y cyfarfod oedd i rhoi rhywfaint o gyd-destun a sicrwydd i'r ymwelwyr annibynnol â dalfeydd ynghylch cau dalfeydd a'r anawsterau y cafodd gwasanaethau'r dalfeydd o ran lefelau staffio priodol yn ystod yr ail chwarter.
- Codwyd mater mewn perthynas â phroblemau staffio yn ymwneud â staff blaen swyddfa a oedd yn effeithio ar y ddalfa ac ymweliad annibynnol â'r ddalfa wrth i alwadau ffôn ddod drwodd i'r ddalfa. Gallai hyn achosi trafferthion gan ei fod yn tynnu staff y ddalfa i ffwrdd o'u dyletswyddau.

**Materion 'eraill' a nodwyd**

- **Eitemau crefyddol** – Tynnwyd sylw at ddiffyg deunyddiau crefyddol Bwdhaidd yn ystod y chwarter diwethaf, ac unionwyd hyn drwy brynu'r testun crefyddol perthnasol.
- **Eitemau tynnu sylw** – Cododd yr ymwelwyr annibynnol â dalfeydd bryderon unwaith eto ynghylch eitemau tynnu sylw neu deganau ffidlan oherwydd pryderon ynghylch eu diogelwch. Bu'r heddlu'n ystyried hyn, ac y mae'r eitemau hynny y barnwyd eu bod yn peri risg i ddiogelwch wedi cael eu tynnu oddi yno.
  - Mae'r heddlu bellach wedi gosod 10 cyfrifiadur llechen ar draws pob dalfa sy'n rhoi mynediad hawdd at hawliau a thelerau, fideos a gemau i blant. Bydd oedolion nad ystyrir eu bod yn risg yn cael y dewis o'u defnyddio hefyd, ond caiff hyn ei ystyried fesul achos.
- **Llyfr cofrestru** – Unwaith eto yn ystod chwarter 3, codwyd materion yn ymwneud â'r llyfr cofrestru. Ar un achlysur nid oedd llyfr cofrestru i'w gael yn y dderbynfa, ac ar achlysur arall bu'n rhaid i ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa ofyn am y llyfr cofrestru, a bu diffyg eglurder o ran ble yr oedd y llyfr.
- **Tystysgrifau halal** – Nodwyd yn ystod ymweliadau fod y tystysgrifau halal mewn dwy ddalfa ar wahân â'u hoes wedi darfod, a bod angen eu hadnewyddu.

Hydref – Rhagfyr 2025–2026

- **Gwiriadau tymheredd bwyd** – wrth gynnal adolygiadau o gyfleusterau'r gegin, nodwyd gan yr ymwelwyr annibynnol â dalfeydd nad oedd y llyfrau cadw tymheredd bwyd yn cael eu cwblhau mewn modd amserol ar adegau, a bod staff yn diweddaru'r manylion ar gofnod y ddalfa.
- **Cerdyn pàs gweithiwr gofal iechyd proffesiynol** – Nodwyd gan ymwelwyr annibynnol â dalfeydd fod oedi cyn i rai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol gael cerdyn pàs a fyddai'n caniatáu iddynt ymadael â'r dalfeydd. Yr amseroedd aros a amlygwyd oedd pum a chwe mis, yn y drefn honno.
- **Ceblau noeth** – Mae ymwelwyr annibynnol â dalfeydd wedi parhau i godi'r mater o geblau noeth yn y ddalfa yn y Drenewydd.
- **Cyllyll a ffyrc papur** – Mae ymwelwyr annibynnol â dalfeydd wedi mynegi nad yw'r cyllyll a ffyrc papur a ddarperir i unigolion a gedwir yn y ddalfa yn addas at y diben, a bod hyn yn fater y mae angen ei ystyried. Cafodd y rhain eu gweithredu oherwydd y risg a oedd yn gysylltiedig gynt â defnyddio fforchlwyau.
- **Asiantaethau allanol** – Roedd problem mewn perthynas â GEOAmey heb gasglu dau unigolyn wedi'u cadw yn y ddalfa i'w cludo i ymddangosiad llys. Tynnwyd sylw at hyn gan staff fel problem oherwydd bod un o'r unigolion a oedd wedi'i gadw yn y ddalfa yn ymosodol. Codwyd hyn gyda'r Prif Arolygydd, a ddywedodd fod gan bob dalfa gynlluniau ar waith ar gyfer y posibilrwydd hwn, ac mai digwyddiad annisgwyl oedd hwn oherwydd salwch staff o fewn GEOAmey.
  - Bu anawsterau hefyd o ran dod o hyd i oedolyn priodol oherwydd anawsterau wrth gysylltu â'r asiantaeth, a oedd wedi golygu oedi sylweddol i gyfanswm yr amser yn y ddalfa ar gyfer yr unigolyn a oedd wedi'i gadw yn y ddalfa.

| |
|---|
| **Sylwadau cadarnhaol**<br><br>• Thema gyffredinol ar draws pob dalfa oedd cymwynasgarwch y staff, ac roedd enghreifftiau penodol lle'r oedd y staff wedi croesawu ymwelwyr annibynnol â dalfeydd newydd eu recriwtio, a rhoi gwybodaeth fanylach iddynt am weithrediadau dalfa, sydd wedi cynorthwyo datblygiad yr ymwelwyr annibynnol â dalfeydd.<br>• Roedd Swyddog y Ddalfa a Thywys mewn dalfa wedi ymgymryd â'r dasg o sicrhau golchdy, storfa ddillad a chegin drefnus iawn, ac roedd yr ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn croesawu hyn ac yn teimlo ei fod yn arfer da i'w rannu â dalfeydd eraill.<br>• Dywedodd yr ymwelwyr annibynnol â dalfeydd eu bod wedi sylwi, ar adegau pan fyddai'r dalfeydd yn brysur, nad oedd agwedd ac ymddygiad y staff wedi newid, a'u bod yr un mor groesawgar ag yr oeddent pan oedd y dalfeydd yn dawelach.<br>• Yn dilyn sawl achlysur o godi pryderon ynghylch ardaloedd toiledau gwydr, croesawodd ymwelwyr annibynnol â dalfeydd y newidiadau a wnaed gan staff i sicrhau eu bod nhw yn lân ac yn daclus. |
| **E-ddysgu digidol**<br><br>- Ers mis Tachwedd 2025, mae Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd wedi darparu platfform e-ddysgu newydd sbon ar gyfer ymwelwyr annibynnol â dalfeydd. Mae'r modiwlau'n cynnwys y canlynol:<br><br>- Cynefino ar gyfer Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd Newydd<br>- Cyflwyniad i'r Ddeddf Terfysgaeth i Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd Newydd<br>- Cwrs Gloywi yr Hanfodion<br>- Trosolwg o Hawliau Dynol<br>- Adolygu Cofnodion y Ddalfa<br>- Anawsterau Dysgu ac Anableddau |

Hydref – Rhagfyr 2025–2026

| |
|---|
| **Achrediad Cynllun Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd**<br><br>- Bob dwy flynedd mae Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn cynnal asesiad o'r Cynlluniau Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd a redir gan swyddfeydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn genedlaethol. Mae pedair haen:<br>  - Cydymffurfio â'r cod<br>  - Arian<br>  - Aur<br>  - Platinwm<br><br>Dros y chwarter diwethaf, mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi cyflawni achrediad Safon Arian yn dilyn asesiad o dystiolaeth a gyflwynwyd. Bydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu nawr yn gweithio i gyflwyno tystiolaeth i gadw ein safon flaenorol o Safon Aur ar ddiwedd y chwarter nesaf. |
| **Penderfyniad i ddiddymu Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn 2028**<br><br>• Ym mis Tachwedd 2025, hysbyswyd pob Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu ledled y wlad gan y Gweinidog Plismona bod bwriad i ddiddymu swydd pob comisiynydd heddlu a throseddu erbyn 2028.<br>• Anfonodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd lythyr personol at bob ymwelydd annibynnol â dalfeydd yn mynegi eu syndod yn sgil y penderfyniad, ac i gynnig eu cefnogaeth i bob ymwelydd annibynnol â dalfeydd.<br>• Bydd gwaith Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn parhau fel arfer, gyda ffocws ar gynorthwyo unigolion a gedwir yn y ddalfa. Dywedodd y Gweinidog y bydd Llywodraeth y DU yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu trefniant newydd i Gymru, gan gydnabod natur unigryw'r gweithio mewn partneriaeth presennol. Bydd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn parhau i gydweithio'n agos â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i lunio cyfeiriad llywodraethu plismona yng Nghymru yn y dyfodol, gan sicrhau model cadarn, tryloyw ac atebol yn lleol y gall y cyhoedd ymddiried ynddo. |

## Hydref – Rhagfyr 2025–2026

**Cyfarfod Panel Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd**

- Ym mis Hydref 2025, trafodwyd ystod eang o bynciau yng nghyfarfod Panel yr Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, gan gynnwys data chwarter 2, a chymerwyd rhai camau gweithredu / argymhellion pwysig, gan gytuno arnynt.
- Roedd ffocws agenda newydd a oedd yn darparu platfform i ymwelwyr annibynnol â dalfeydd fynegi yr hyn sydd ar eu meddyliau, eu cwestiynau neu eu pryderon ynghylch materion yr oeddent wedi dod ar eu traws a lle'r oeddent yn dymuno cael eglurhad, naill ai gan yr heddlu neu gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Roedd y fformat yn ymddangos yn effeithiol wrth hwyluso trafodaethau da ynghylch ymarfer ymwelwyr annibynnol â dalfeydd a materion yr heddlu. Croesawodd cynrychiolwyr yr heddlu a fu'n bresennol yn y cyfarfod yr adborth gonest a ddarparwyd gan yr ymwelwyr annibynnol â dalfeydd, ac y maent hefyd yn gwerthfawrogi'r materion a godwyd gan ei fod yn eu cynorthwyo i uwchgyfeirio unrhyw faterion penodol yn unol â hynny.

**Gweminar Troseddau Casineb**

- Ym mis Hydref 2025, i gydnabod Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb, cynhaliodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu weminar awr o hyd a fu'n archwilio troseddau casineb a'r rhwystrau y mae'r heddlu'n eu hwynebu wrth gynorthwyo pobl anabl.
- Gwahoddwyd ymwelwyr annibynnol â dalfeydd ymhlith gwirfoddolwyr eraill Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu i fod yn bresennol. Roedd yr adborth gan y rhai a lwyddodd i fod yn bresennol yn dweud ei fod yn weminar gadarnhaol a chraff.

**Ymateb yr heddlu:**

Mewn perthynas â'r sylwadau uchod, dyma fyfyrdodau'r Arolygydd Andrew Rogers, sy'n gwneud sylwadau ar ran Heddlu Dyfed-Powys ynghylch y chwarter diwethaf:

> *"Rwy'n falch o weld bod y berthynas waith gref yn parhau rhwng ymwelwyr annibynnol â dalfeydd a staff dalfeydd Heddlu Dyfed-Powys. Mae'n bleser arbennig gweld parhad o ran sylwadau cadarnhaol a wnaed gan ymwelwyr annibynnol â dalfeydd mewn perthynas â'r croeso a gawsant*

*gan staff y dalfeydd, cymwynasgarwch staff y dalfeydd, a bod yr agwedd gadarnhaol hon tuag at ymwelwyr annibynnol â dalfeydd wedi parhau'n gyson hyd yn oed pan oedd y dalfeydd yn brysur.*

*Mae Gwasanaethau'r Ddalfa yn nodi bod nifer o sylwadau wedi'u gwneud yn ystod y chwarter diwethaf yn ymwneud ag atgyweiriadau, ond rwy'n falch o weld bod ymwelwyr annibynnol â dalfeydd wedi nodi gwelliant yn y maes hwn, gyda cheisiadau am atgyweiriadau celloedd yn cael eu diwallu, ar y cyfan, dros y cyfnod hwn. Mae'r dalfeydd wedi gweld gwelliant o ran atgyweiriadau yn y dalfeydd yn cael eu blaenoriaethu a'u datrys yn gyflym yn dilyn sgwrs â'r Adran Ystadau ynghylch y broses y cytunwyd arni. Fodd bynnag, rhaid rheoli disgwyliadau, a rhaid ystyried y bydd rhai atgyweiriadau yn fwy cymhleth eu natur nag eraill, a bydd hyn yn arwain at ddatrysiadau yn cymryd mwy o amser.*

*Mae'n gadarnhaol gweld bod adroddiadau am gau gorsafoedd a phroblemau staffio wedi'u gadw i leiafswm dros y chwarter diwethaf. Mae ymwelwyr annibynnol â dalfeydd a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu eisoes yn ymwybodol o'r problemau o ran adnoddau a gafwyd ym Mhowys yn ddiweddar. Fodd bynnag, gall Gwasanaethau'r Ddalfa roi sicrwydd, ar hyn o bryd, oherwydd cynnydd yn nifer y rhingylliaid dalfa wedi'u hyfforddi, a symudiadau parhaol i'r ddalfa, fod adnoddau ym Mhowys bellach yn llawer iachach, gyda cwmpas llawn ym mis Ionawr.*

*Nodaf fod sawl mater 'arall' wedi'u nodi dros y chwarter diwethaf, a gwnaf sylwadau ar rai ohonynt:*

- *O ran eitemau tynnu sylw, mae ymwelwyr annibynnol â dalfeydd wedi codi pryderon mewn perthynas ag eitemau tynnu sylw neu deganau ffidlan oherwydd pryderon ynghylch eu diogelwch. Bu'r pecynnau tynnu sylw a ddefnyddir yn nalfeydd Heddlu Dyfed-Powys yn destun ymchwil a gwaith cwmpasu gyda heddluoedd eraill yn genedlaethol a brynodd yr un eitemau ac sy'n eu defnyddio. Fel gydag unrhyw eitemau a ddarperir i unigolion a gedwir yn y ddalfa, mae defnyddio eitemau tynnu sylw yn amodol ar asesiad risg trylwyr gan y swyddog dalfa ar ddyletswydd, a dim ond i'r rhai sy'n addas y byddant yn cael eu darparu i'w defnyddio.*
- *Mae Gwasanaethau'r Ddalfa yn ymwybodol o dystysgrifau halal sydd â'u hoes wedi darfod mewn rhai dalfeydd, ac maent yn y broses o geisio tystysgrifau newydd.*
- *Mae cardiau pàs gweithwyr gofal iechyd proffesiynol wedi'u darparu i'r rhan fwyaf o weithwyr gofal iechyd proffesiynol er mwyn hwyluso mynediad i'r ddalfa. Ymchwiliwyd i'r enghraifft a ddarparwyd, gydag amser aros o bum neu chwe mis, ac ymddengys bod hyd yr amser wedi'i orliwio, gan mai dim ond rhwng pedair a chwe wythnos yr oedd y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol wedi'i gyflogi gan y contract*

| |
|---|
| *meddygol ar y pwynt hwnnw. Caiff hyn ei fonitro'n wythnosol, yn ystod cyfarfodydd gyda Mitie, a gwneir ceisiadau am gardiau mynediad yn amserol.*<br><br>*Hoffwn ddiolch i'r ymwelwyr annibynnol â dalfeydd am eu hadborth parhaus, eu cefnogaeth i'n hunedau dalfa, a'u presenoldeb mewn cyfarfodydd Paneli Craffu ar Ddalfeydd, sy'n ein galluogi i barhau i fod yn atebol ac yn dryloyw o ran y ffordd yr ydym yn ymdrin ag unigolion a gedwir yn y ddalfa."* |